# Jenna Jones

46 Stryd Pentyrch, Cathays, Caerdydd, CF10 4RR
**E**: Jenna.Jones@gmail.com **M**: 07796 385712
LinkedIn: https://uk.linkedin.com/in/jenjones

## PROFFIL

Myfyriwr Newyddiaduraeth a Chyfathrebu rhagweithiol, sy'n graff wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac yn angerddol am y celfyddydau; sgiliau cyfathrebu rhagorol a ddatblygwyd mewn swyddi cefnogol yn sector y celfyddydau a diwylliant, cyfryngau myfyrwyr a swyddi gwirfoddol; yn chwilio am interniaeth ym maes cysylltiadau cyhoeddus gydag asiantaeth cyfathrebu diwylliannol.

## PROFIAD PERTHNASOL

**Cyfrannwr Cynnwys,** *Cyfryngau Myfyrwyr Caerdydd: Cylchgrawn Quench (Diwylliant)* **Ionawr 2024-Presennol**

- Cyfrannu'n rheolaidd at gylchgrawn misol Prifysgol Caerdydd ar ffordd o fyw myfyrwyr (tua 20,000 o ddarllenwyr) a Quench ar-lein, gan gynnwys erthyglau, adolygiadau a darnau barn:
  - Adolygiadau o ddramâu, operâu, sioeau cerdd gan gynnwys: [PROVIDE HYPERLINKS]

**Cynorthwyydd Cefnogol Marchnata a Chyfathrebu,** *Prifysgol Caerdydd* **Mehefin-Awst 2023**

- Rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Twitter a Facebook yr Ysgol Cerddoriaeth.
- Cyfathrebu'n broffesiynol â rhanddeiliaid dros e-bost/ffôn, gan ymdrin ag ymholiadau'n effeithlon.
- Cynorthwyo â chynllunio digwyddiadau ar gyfer Diwrnod Agored Prifysgol Caerdydd a Chyngerdd Gala Blynyddol yr Ysgol Cerddoriaeth, a chysylltu â thîm dylunio'r brifysgol, argraffwyr allanol a'r adran gyllid i greu deunydd hyrwyddo gan gynnwys taflenni a phosteri, gwahoddiadau a rhaglen ddigwyddiadau

**Cynorthwyydd Gweinyddol,** Rhaglen Ddatblygu Amgueddfeydd De-ddwyrain Lloegr, Brighton a Hove. **Haf 2023**

- Cyflawni dyletswyddau gweinyddol cyffredinol gan gynnwys ffeilio, llungopïo, diweddaru cronfa ddata'r amgueddfa gyda manylion cyswllt amgueddfeydd
- Diweddaru gwefan Amgueddfeydd De-ddwyrain Lloegr gyda newyddion, hyfforddiant a swyddi a chefnogi Swyddog Cyswllt y Rhaglen i gynnal presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol gyda diweddariadau newyddion

## SGILIAU ALLWEDDOL

**Gweithio'n dda ac yn frwdfrydig mewn tîm -** gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Ysgol Cerddoriaeth i sicrhau bod digwyddiadau â thros 200 o bobl a 50 o gerddorion yn bresennol yn cael eu cynnal yn ddidrafferth. Hefyd yn gyfforddus yn gweithio'n annibynnol.

Unigolion eraill yn ymddiried ynof i gynhyrchu cynnwys cywir, deniadol sydd wedi'i ysgrifennu'n dda ar gyfer gwefan Amgueddfeydd De-ddwyrain Lloegr a phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol gan ddangos **sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol**. Siaradais yn hyderus ag aelodau'r cyhoedd, uwch aelodau o staff academaidd a noddwyr digwyddiadau tra'n gweithio yn yr Ysgol Cerddoriaeth ac roeddwn yn gyfforddus yn rhoi cyflwyniadau a chynnig syniadau yn fy ngradd.

Gallu **rheoli fy amser a fy ngwaith**, yr wyf yn ei ddangos trwy lwyddo i gydbwyso astudio amser llawn, gwaith rhan-amser ac ymrwymiadau allgyrsiol tra'n cael graddau 2:1 uchel.

**Sgiliau TG cryf** a phrofiad o ddefnyddio Outlook, Word, Excel. Gwybodaeth sylfaenol o InDesign.

## ADDYSG

**BA Newyddiaduraeth a Chyfathrebu,** *Prifysgol Caerdydd*
**2023-presennol**
Modiwlau perthnasol yn cynnwys: Hanes Diwylliant a Chyfathrebu Torfol; Iaith, Cyfryngau, Dylanwadu; Ysgrifennu a Chynhyrchu Erthyglau Cylchgrawn; Sbin a Chysylltiadau Cyhoeddus, Cynllunio ac Ymgyrchu ar gyfer Elusennau, Tueddiadau yn y Cyfryngau Cymdeithasol
Canlyniad Blwyddyn 1: 67%

**Safon Uwch,** *King Edward VI School, Brighton* **2021-2023**
Saesneg (A), Hanes (A), Ffrangeg (B), Celf UG (B)

**TGAU,** *Brighton High School* **2016-2021**
10 gradd A*-C

## PROFIADAU ERAILL

**Ffotograffydd Gwirfoddol mewn Digwyddiadau,** *Gofal Canser Tenovus, Caerdydd*
**Mehefin – Awst 2023**

- Tynnu lluniau mewn amrywiol ddigwyddiadau elusennol prysur a chyffrous, gan gynnwys digwyddiadau rhedeg, teithiau cerdded, diwrnodau hwyl, cyngherddau a chiniawau, gan ddal ambell eiliad arbennig i'r sawl sy'n cymryd rhan. Cafodd fy lluniau eu defnyddio ar wefan Tenovus ac mewn deunydd marchnata, gan gyfrannu at fwy o roddion i'r elusen.
- Wedi cyfrannu deunydd ysgrifenedig ar gyfer datganiadau i'r wasg gan gynnwys cyfweliadau gyda chyfranogwyr y digwyddiad.

**Gweinydd (rhan-amser ac yn ystod y gwyliau),** *Pizza Hut, Burlesdon*
**2021-2023**

- Wedi gweithio'n rhan o dîm i gymryd archebion, gweini a chlirio byrddau, gan sicrhau cyflenwad digonol yn ystod sifftiau prysur iawn ar nos Wener a nos Sadwrn
- Delio â chwsmeriaid mewn modd cwrtais, cyfeillgar a chynnig gwasanaeth effeithlon a arweiniodd at adolygiadau cwsmeriaid rhagorol a chael fy nghydnabod yn Weithiwr y Mis ddwywaith mewn cyfnod o 6 mis.

## DIDDORDEBAU A LLWYDDIANNAU

**Ffotograffiaeth:** Ffotograffydd brwd - yn enwedig lluniau anffurfiol o bobl mewn arddull gohebu.

Aelod o Gymdeithas Ffotograffiaeth Prifysgol Caerdydd, a chefais fy ethol yn **Reolwr y Cyfryngau Cymdeithasol ar y pwyllgor** ar gyfer 2023-24 gyda chyfrifoldeb am holl waith cyfathrebu'r

gymdeithas.  Trefnu nifer o ddigwyddiadau i aelodau megis teithiau cerdded wythnosol i dynnu lluniau o amgylch Caerdydd, gweithdai ffotograffiaeth, teithiau a digwyddiadau cymdeithasol. Defnyddio Facebook a Twitter i hyrwyddo digwyddiadau

**Cynrychiolydd dosbarth** (2023-presennol): sy'n golygu mynd i Gyfarfodydd Panel Staff a Myfyrwyr bob tymor, cynrychioli barn y dosbarth, cynnig syniadau a chysylltu â staff academaidd.

## CANOLWYR

Ar gael ar gais